Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe - Grŵp Partneriaeth

**Committee Room 3A - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 20 Mawrth 2018 am 12.30 pm**

**Yn Bresennol**: Bu'r cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) yn llywyddu

Kate Cassidy, Canolfan Byd Gwaith
Karen Cornish, Llywodraeth Cymru
Jan Curtice, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Andrew Davies, BILI PABM
Eirian Evans, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Hywel Evans, Fforwm Busnes Rhanbarthol
Sian Harrop-Griffiths, BILL PABM
Anna Jones, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Daniel Jones, Heddlu De Cymru
Martin Jones, Heddlu De Cymru
Pete Jordan, Cyfoeth Naturiol Cymru
Erika Kirchner, Cyngor Abertawe
Andrea Lewis, Cyngor Abertawe
Clive Lloyd, Cyngor Abertawe
Philip McDonnell, Fforwm yr Amgylchedd Abertawe
Amy Richmond, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Phil Roberts, Prif Weithredwr, Cyngor Abertawe
Mary Sherwood, Cyngor Abertawe
Chris Sivers, Cyngor Abertawe
Roger Thomas, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Hefyd yn bresennol:**
Kate Jones, Cyngor Abertawe
Suzy Richards, Cyngor Abertawe

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
June Burtonshaw, Cyngor Abertawe
Amanda Carr, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe
Mark Child, Cyngor Abertawe
Raymond Ciborowski, Prifysgol Abertawe
Jane Davidson, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Hilary Dover, Grŵp Cynllunio
Helen Matthews, Canolfan Byd Gwaith
Bonnie Navarra, Heddlu De Cymru

**35 Derbyn Datganiadau o Personol a Rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

**36 Cofnodion.**

**Cytunwyd** y dylid cymeradwyo cofnodion cyfarfod Grŵp Partneriaeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2018 fel cofnod cywir.

**37 Cwestiynau Gan y Cyhoedd.**

Nid oedd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

**38 Cymeradwyo'r Cynllun Lles Lleol.**

Cyflwynodd Suzy Richards, Cyngor Abertawe, Gynllun Lles Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe “Gweithio Gyda'n Gilydd i Adeiladu Dyfodol Gwell”.

Esboniodd y cytunwyd ar y Cynllun Lles Lleol yng nghyfarfod Grŵp Craidd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe ar 9 Mawrth 2018. Ar hyn o bryd, roedd y cynllun gyda phob un o'r partneriaid statudol er mwyn i'w sefydliadau eu hunain ei gymeradwyo.

Nodwyd gan y bwrdd fod y raddfa amser rhwng diwedd yr ymgynghoriad a chytuno ar y cynllun wedi bod yn dynn iawn.

Mae'n rhaid cyhoeddi'r cynllun erbyn 4 Mai 2018.

**Cytunwyd** nodi bod Cynllun Lles Lleol Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe wedi'i gymeradwyo yng nghyfarfod Grŵp Craidd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe ar 9 Mawrth 2018.

**39 Cynllun Gweithredu Lles Lleol a'i roi ar Waith.**

Nodwyd gan Suzy Richards, Cyngor Abertawe, yn ogystal â Chynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe, a oedd yn cynnwys gweithredu ar lefel uchel, y byddai angen cynllun gweithredu manylach.

Cynghorodd y bwrdd am y dull arfaethedig ar gyfer llunio cynlluniau gweithredu. Byddai pob un o'r pedwar partner statudol yn arwain ar un o'r pedwar amcan a nodwyd yn y cynllun. Pan oedd cydweithio eisoes yn bodoli ar gyfer rhai o'r amcanion, sef Amcanion 1 i 3, byddai'r grwpiau presennol hynny'n cael eu defnyddio i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer pob un o'r amcanion hynny. O ran Amcan 4 - Cymunedau Cryf, cynigiwyd y byddai Grŵp Llywio'n cael ei greu i ddatblygu cynllun gweithredu a chytuno arno.

Y cam nesaf fyddai nodi arweinwyr yr amcan a chreu Grŵp Llywio ar gyfer Amcan 4 - Cymunedau Cryf. Nodwyd er y byddai arweinwyr ar wahân ar gyfer yr amcanion, roedd hi'n hollbwysig bod pawb yn cyfrannu at yr holl amcanion.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y graddfeydd amser ar gyfer llunio'r cynlluniau gweithredu. Bydd cydbwysedd rhwng caniatáu digon o amser i lunio cynlluniau o safon a chynnal momentwm a chynnydd.

Mynegwyd pryder gan y bwrdd ynghylch dyblygu gwaith, yn arbennig ar gyfer yr aelodau hynny a oedd yn rhan o gynlluniau lles lluosog. Roedd hi'n bwysig i'r bwrdd gysylltu â'r gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo.

Cydnabuwyd bod llawer o bobl wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Er mwyn cynnal diddordeb, roedd hi'n bwysig i barhau i gynnwys y cyhoedd a'u hysbysu am gynnydd y Cynllun Lles a'r amserlenni cysylltiedig.

Yn dilyn hyn, cafwyd trafodaeth ynghylch cydweithio rhanbarthol - Llywodraeth Leol yng Nghymru a pha effaith y byddai hyn yn ei chael ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Diolchodd y bwrdd i Suzy Richards a Penny Gruffydd am eu gwaith a'u hymrwymiad.

**Cytunwyd** y byddai'r sylwadau ar y cynllun gweithredu a'i roi ar waith yn cael eu nodi.

## 40 Cyfathrevbu a Chyhoeddi'r Cynllun Lles Lleol.

Dywedodd Suzy Richards, Cyngor Abertawe, y byddai fersiwn statudol y cynllun yn cael ei chyhoeddi ar 4 Mai 2018 ynghyd â dogfen ymateb fer i'r ymgynghoriad. Dilynir hyn gan adroddiad ymgynghori manylach yn ddiweddarach. Byddai'r cynllun yn cael ei gyhoeddi ar wefan y bwrdd a'i ddosbarthu i'r bwrdd er mwyn i aelodau gyhoeddi'r cynllun ar eu gwefannau eu hunain.

Nodwyd y byddai fersiynau lluosog o’r cynllun ar gael: -

- Y Fersiwn Statudol
- Fersiwn Ieuenctid (i'w hailenwi i fod yn fwy cynhwysol - e.e. fersiwn hawdd ei darllen/gyffredinol/hygyrch)
- Fersiwn Hawdd ei Darllen
- Fersiwn Sganio Sgrîn ar gyfer y rhai â nam ar y golwg

Ni fyddai'r holl fersiynau ar gael erbyn 4 Mai 2018. Yn y dyfodol, roedd y posibilrwydd o archwilio gweithio gyda myfyrwyr i ddatblygu fersiwn fideo byr i'w defnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol.

Cafwyd llawer o adborth cadarnhaol ar y 'Fersiwn Ieuenctid' a oedd y fersiwn a ffafriwyd gan lawer. Cafwyd trafodaeth yn dilyn hynny am y fersiynau amrywiol, graffeg a'r fersiwn fwyaf priodol i'w chyhoeddi. Cytunwyd er y byddai'r fersiwn statudol yn parhau i fod y ddogfen dechnegol lawn, byddai defnyddwyr yn cael eu

cyfeirio i'r 'Fersiwn Ieuenctid' fel 'ein drws blaen'. Yn ogystal, cynigiwyd creu 'taflen grynodeb' o negeseuon allweddol, heb fod yn fwy na dwy dudalen, er mwyn cynnwys y negeseuon allweddol, yn arbennig ar y rheng flaen.

Cafwyd trafodaeth fer ar ymagweddau at hyrwyddo negeseuon allweddol ar gyfer y rheng flaen.

**Cytunwyd** i nodi'r sylwadau**.**

**41 Cais Ariannu Rhanbarthol 2018/19 – Y Diweddaraf.**

Rhoddwyd y diweddaraf gan Chris Sivers, Cyfarwyddwr Pobl, Cyngor Abertawe ar Gais Ariannu Rhanbarthol 2018/19. Cymeradwywyd arian Llywodraeth Cymru ar gyfer y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer 2018/19 yn rhanbarthol, yn dilyn ôl troed y Bwrdd Iechyd Lleol.

Cyflwynwyd cais rhanbarthol ar y cyd ar gyfer y canlynol: -

- Oddeutu £15,000 i ddatblygu ymagweddau ynghylch 'Hawdd ei Darllen'
- Oddeutu £40,000 i ariannu’r staff presennol ym mhob awdurdod lleol (Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe) er mwyn parhau i gydlynu'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus perthnasol.

**Cytunwyd** i nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

Daeth y cyfarfod I ben am 1.35 pm

**Cadeirydd**